Gorffennaf 2017

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Canfyddiadau ein Galwad am Dystiolaeth ynghylch Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Roedd tîm yr astudiaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru a wnaeth y gwaith yn cynnwys Nick Selwyn, Emily Owen, Gareth Jones a Duncan Mackenzie, o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.


© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Adroddiad cryno

1 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal rhaglen o astudiaethau ym maes llywodraeth leol. Mae'r astudiaethau hyn yn canolbwyntio ar un mater penodol neu un maes polisi, gan adolygu sut y mae cyrff cyhoeddus drwy Gymru yn perfformio ac yn defnyddio'u hadnoddau yn hynny o beth. Ymgynghorodd yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch ei raglen o astudiaethau ym maes llywodraeth leol ym mis Rhagfyr 2015, gan fabwysiadu rhaglen arfaethedig dair blynedd – Arddangosyn 1. Mae'r tair astudiaeth a ddewiswyd ar gyfer 2018-19 yn canolbwyntio ar feysydd gwasanaeth lle mae deddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno'n ddiweddar.Purpose of the call for evidence

Arddangosyn 1: Rhaglen o astudiaethau'r Archwilydd Cyffredinol ym maes llywodraeth leol rhwng 2016-17 a 2018-19

| 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|
| Sut y mae llywodraeth leol yn rheoli'r galw: Gwasanaethau digartrefedd | Y Gronfa Gofal Canolraddol | Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol |
| Gwasanaethau anabledd dysgu awdurdodau lleol – comisiynu strategol | Defnyddio data'n effeithiol | Gwerth am arian o wasanaethau cynllunio |
| Gwella llesiant drwy addasiadau i dai | Pa mor dda y mae gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi gwasanaethau i gymunedau gwledig | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

## Diben yr alwad am dystiolaeth

2 Wrth sefydlu ei raglen ym mis Mawrth 2016, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol wybod i awdurdodau lleol ei fod yn bwriadu gwneud rhywfaint o waith i gasglu tystiolaeth er mwyn rhoi ffocws i'w waith, ond hefyd er mwyn barnu pa mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn perfformio wrth gynnal yr adolygiadau hyn yn 2018-19. Wrth alw am dystiolaeth, gofynnodd yr Archwilydd Cyffredinol am ymatebion i gyfres o gwestiynau ynghylch y canlynol:

a dulliau presennol o weithio;

b y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth a pholisi;

c a sut y mae disgwyl i'r rhain ddylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir i ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau, ynghyd â gwella'r gwasanaethau hynny.

3 Byddwn yn cynnal gwaith ychwanegol i ddatblygu syniadau a themâu ar gyfer yr astudiaeth yn ystod 2018-19. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y broses hon ac yn rhan o'n sylfaen dystiolaeth, y byddwn yn cynhyrchu ein prosiect byr oddi wrthi sy'n amlinellu cwmpas a chylch gorchwyl yr astudiaeth. Byddwn yn profi cynnydd gan gyrff cyhoeddus o ran mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr alwad am dystiolaeth.

# Adroddiad manwl

## Y canfyddiadau o'n galwad am dystiolaeth ynghylch Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth newydd ar ffurf Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y 'Ddeddf'). Amcan cyffredinol y Ddeddf yw gwella ymateb y sector cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; rhoi ffocws strategol wrth ymdrin â'r materion hyn; a sicrhau bod camau ataliol, camau amddiffyn a chamau i roi cymorth yn cael eu hystyried mewn ffordd gyson wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella'r trefniadau i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gwella'r trefniadau i amddiffyn dioddefwyr, a gwella'r cymorth i bobl y mae cam-drin a thrais o'r fath yn effeithio arnynt.

1.2 Roedd ein galwad am dystiolaeth yn casglu gwybodaeth gan y partïon perthnasol am eu dulliau presennol o weithio; y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r newidiadau mewn deddfwriaeth a pholisi; a sut y mae disgwyl i'r rhain ddylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir i'r rheini y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt, ynghyd â gwella canlyniadau i'r bobl hynny. Mae ein canfyddiadau o'r gwaith hwn i'w gweld isod.

## Mae strategaethau lleol yn datblygu ond mae angen eu hintegreiddio â deddfwriaeth ddiweddar er mwyn iddynt fod yn gwbl effeithiol

1.3 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei strategaeth genedlaethol gyntaf i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn hydref 2016 a chyhoeddwyd y strategaeth genedlaethol gyntaf ym mis Tachwedd 2016. Pan alwyd am dystiolaeth, roedd y sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau perthnasol yn lleol, sef byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, yn aros i'r strategaeth genedlaethol gael ei chyhoeddi cyn datblygu eu strategaethau lleol.

1.4 Mae cyrff cyhoeddus yn cydnabod pwysigrwydd datblygu a chyfathrebu eu cynlluniau lleol a fydd yn dangos yn glir sut y mae bob sefydliad partner i gyfrannu at fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae cyrff cyhoeddus yn disgwyl y bydd strategaethau lleol yn arwain at ganlyniadau cliriach, a chanlyniadau y gellir eu mesur yn well, a'r rheini cyd-fynd â'r dangosyddion yn y strategaeth genedlaethol. Mae angen i strategaethau lleol hefyd roi sylw i bolisïau mewn meysydd sydd heb eu datganoli (cyfiawnder troseddol a phlismona) yn ogystal â rhoi sylw i ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth a wnaed mewn meysydd sydd wedi'u datganoli (iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol). At hynny, bydd angen gwell ymateb ar draws y sector cyhoeddus i anghenion dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cyfeiriodd nifer o sefydliadau hefyd at bwysigrwydd adrodd yn flynyddol am y cynnydd a wneir wrth ddarparu strategaethau lleol.

1.5 Tynnodd ymatebwyr sylw at waith rhanbarthol sy'n cael ei ddatblygu mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, fel Gwent ac yn y gogledd, lle mae partneriaid yn cydweithio i ddatblygu eu strategaethau. Er bod gweithio rhanbarthol a phartneriaethau lleol yn cael eu hystyried yn hanfodol er mwyn rheoli a gwella ymateb cyffredinol cyrff cyhoeddus i gam-drin domestig, cyfeiriodd yr ymatebwyr hefyd at ambell her o bwys sy'n wynebu'r partneriaethau. Mae'r rhain yn cynnwys cymhlethdod cydlynu gwaith ar draws nifer o sefydliadau sy'n debygol o fod â chylchoedd gwaith a blaenoriaethau gwahanol, yr angen i sicrhau bod trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer comisiynu ar y cyd, a'r her o sicrhau bod y modelau newydd ar gyfer gwasanaethau rhanbarthol yn gweddu'n dda i'r anghenion lleol.  Roedd nifer o sefydliadau hefyd yn cydnabod bod angen canolbwyntio ar wasanaethau ataliol.

1.6 Dywedodd sefydliadau fod eu hamcanion cydraddoldeb presennol wedi canolbwyntio'n bennaf ar gam-drin domestig, yn ogystal â thrais rhywiol mewn rhai achosion, ond bod angen ailedrych ar hynny bellach gan fod y Ddeddf yn cwmpasu maes ehangach na hynny. Mae angen i sefydliadau hefyd sicrhau bod eu gwaith o dan y Ddeddf hon yn cyd-fynd â darpariaethau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant[1] a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[2]. Ym mhrofiad sefydliadau fel Cymorth i Ferched Cymru, fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth bod cyrff cyhoeddus yn sicrhau bod pethau'n cyd-fynd â'i gilydd, ac nid ydynt i'w gweld yn integreiddio'u gwaith yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth newydd hon. Roedd teimlad bod yr amserlenni gwahanol ar gyfer rhoi'r deddfau hyn ar waith yn ei gwneud yn arbennig o anodd i sefydliadau cyhoeddus sicrhau bod pethau'n cyd-fynd â'i gilydd.

1 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud ag atal cam-drin a dyletswyddau o ran hyfforddiant ac asesiadau o anghenion.

2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gwasanaethau lleol gyhoeddi cynlluniau llesiant, a gallai fod perthynas rhwng y rhain â strategaethau sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

## Nid oes gan bob sefydliad ar hyn o bryd bolisïau yn y gweithle sy'n rhoi sylw i bob elfen o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

1.7 Mae gan bob bwrdd iechyd a ymatebodd bolisïau yn y gweithle sy'n ymwneud â cham-drin domestig, ac mae sefydliadau'n bwriadu diweddaru eu polisïau ar ôl cyflwyno'r Ddeddf. Mae gan un bwrdd iechyd grŵp Diogelu yn y Gweithle sy'n rhoi cymorth i staff sydd wedi dioddef o gam-drin domestig, ac mae nifer o fyrddau iechyd eraill yn helpu rheolwyr i roi polisi'r sefydliad ar waith ar gyfer staff y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt. Ar y llaw arall, mae awdurdodau lleol gan mwyaf yn aros i Lywodraeth Cymru greu ei pholisi enghreifftiol ar gyfer y gweithle.

1.8 Mae un bwrdd iechyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg – yn treialu'r cynllun 'Gofyn a Gweithredu'. Cynllun ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru yw hwn. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi datblygu polisi 'Gofyn a Gweithredu' i gyd-fynd â'r rhaglen dreialu. Bydd hyn yn cael ei adolygu ar ôl rhoi'r polisi ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd.

1.9 Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o sefydliadau yn cydnabod bod eu polisïau presennol yn canolbwyntio'n bennaf ar drais domestig, ac nad ydynt yn rhoi sylw digonol i elfennau ehangach y Ddeddf. Roedd nifer o sefydliadau yn credu y byddai cyfleoedd hefyd i roi sylw i fylchau yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd ac y bydd angen symud o ddull ymatebol i ddull rhagweithiol. 0}

## Mae'r myrdd o ffrydiau cyllido a'u natur byrdymor yn ei gwneud yn anodd i gyrff cyhoeddus ddatblygu dull strategol hirdymor o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

1.10 Mae'r ymatebion yn dangos bod nifer o ffrydiau cyllido sy'n helpu byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i wneud gwaith ym maes cam-drin domestig. Mae hyn yn cynnwys arian gan y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llywodraeth Cymru, y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol a'r byrddau iechyd. Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru bod nifer o'r sefydliadau lleol sy'n aelodau o'r corff hefyd yn gwneud cais am arian elusennol – fel y Gronfa Loteri Fawr[3] – er mwyn cael cymorth i wneud eu gwaith.

3 Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn rhoi miliynau o arian achosion da y Loteri Genedlaethol i grwpiau cymunedol a phrosiectau elusennol drwy'r DU. Yn 2014-15, buddsoddodd y Loteri Fawr dros £1 biliwn mewn gweithgarwch cymunedol.

1.11 Dywedodd sylwebwyr fod angen cymryd camau pwrpasol a chlir i sicrhau bod penderfyniadau cyllido a wneir mewn meysydd sydd wedi'u datganoli a meysydd sydd heb eu datganoli yn cyd-fynd â'i gilydd cystal ag y bo modd, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau mwyaf cydlynol ac effeithiol yn cael eu datblygu. Dywedodd nifer o ymatebwyr ei bod yn hanfodol yn hyn o beth sicrhau bod ffrydiau cyllido sydd wedi'u datganoli a rhai sydd heb eu datganoli yn cyd-fynd yn well â'r canlyniadau y mae'r Ddeddf i fod i'w sicrhau.

1.12 Cyfeiriodd ymatebwyr at rai gwendidau yn y trefniadau ariannu presennol, gan gynnwys ffrydiau cyllido blynyddol. Nodwyd y gallai'r baich gweinyddol mawr sy'n dod yn sgil yr angen i reoli ac ail-ymgeisio am gyllid o'r fath wanhau effaith y cyllid hwnnw. Dywedodd sylwebwyr bod y myrdd o ffrydiau cyllido a'r holl amodau sydd ynghlwm wrthynt yn ei gwneud yn anodd i gyrff cyhoeddus gyfuno'r cyllid cyhoeddus i gyd mewn un gronfa er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn yn lleol. Dywedodd ymatebwyr y gallai'r Ddeddf fod yn gyfle i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau presennol yn y modd y bydd cyrff cyhoeddus yn cyllido gwasanaethau arbenigol, ac y byddai hynny yn gwella'u trefniadau comisiynu.

1.13 At hynny, dywedodd rhai sefydliadau mai dim ond y cyllid grant y maent yn ei gael i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol y mae modd iddynt ei briodoli, a bod grantiau eraill sy'n cael eu defnyddio i wneud gwaith cysylltiedig pwysig yn aml yn cael eu diystyru. Yn aml nid yw'r pethau sy'n cael eu gwneud o dan y grantiau hyn yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn cael cymaint o effaith â phosibl. Mae anallu sefydliadau i briodoli pob gwariant yn atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod strategaethau a chynlluniau yn cyd-fynd yn glir â'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y meysydd polisi hyn, yn enwedig ac ystyried y diffyg cysylltiad rhwng cyllid grant byrdymor blynyddol a'r blaenoriaethau mwy hirdymor a geir mewn strategaethau. Yn wir, ailgodwyd y pwynt hwn gan nifer o awdurdodau lleol a byrddau iechyd a oedd yn cydnabod y byddai cyllid mwy hirdymor yn eu helpu i gynllunio'n well er mwyn cyflawni amcanion y Ddeddf. Yn ôl arolwg gan Cymorth i Ferched Cymru - arolwg sy'n edrych ar gyflwr y sector ac a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016 – roedd cyllid 46 y cant o'r sefydliadau sy'n aelodau o'r corff wedi lleihau yn 2016-17 ac roedd cyllid 58 y cant wedi lleihau yn 2015-16. Dim ond 33 y cant oedd yn hyderus y byddai eu cyllid yn parhau ar ôl mis Ebrill 2017.

## Nid yw sefydliadau yn gweithio'n gyson wrth ddefnyddio profiadau darparwyr a goroeswyr i gynllunio, dylunio, rheoli ac adolygu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

1.14 Mae ein dadansoddiad o'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth yn dangos bod sefydliadau'n anghyson wrth ddefnyddio profiadau uniongyrchol defnyddwyr gwasanaethau er mwyn cynllunio, dylunio, rheoli ac adolygu gwasanaethau. Dywedodd nifer o sefydliadau eu bod yn gyffredinol yn dibynnu ar ddarparwyr gwasanaethau a sefydliadau partner pwysig er mwyn cael gwybodaeth gan oroeswyr yn hytrach nag ymwneud yn uniongyrchol â hwy. Roeddent yn cydnabod bod hwn yn faes anodd. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr – yn fwyaf nodedig Heddlu De Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Chymorth i Ferched Cymru – at gynlluniau lleol y maent wedi'u datblygu er mwyn ymwneud â goroeswyr wrth gynllunio gwasanaethau.

1.15 Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru nad yw'r broses o ymwneud ac ymgynghori a goroeswyr wedi'i gwreiddio yn nulliau gweithio gwasanaethau cyhoeddus, ac y gallai rhoi'r Ddeddf ar waith arwain at newid hynny mewn ffordd gadarnhaol. Er mwyn annog sefydliadau i ymwneud yn well â goroeswyr, cyhoeddodd Cymorth i Ferched Cymru becyn yn ddiweddar ar gyfer comisiynu ar y cyd[4], a hynny er mwyn helpu i gydgynhyrchu gwasanaethau â goroeswyr. Fodd bynnag, bydd angen adnoddau ac arweinyddiaeth strategol er mwyn bwrw ati yn hyn o beth, a dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai angen iddynt edrych ar eu dull o weithio o'r newydd.

4 Lloyds Bank Foundation, Tackling Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence: A Collaborative Commissioning Toolkit for Services in Wales, Awst 2016.

## Er bod sefydliadau iechyd wedi integreiddio'r fframwaith hyfforddi cenedlaethol yn rhan o'u rhaglenni presennol, nid oes gan awdurdodau lleol ddigon o gapasiti i ateb y gofyniad hwn

1.16 Mae byrddau iechyd wedi cymryd nifer o gamau i gysylltu'r fframwaith hyfforddi cenedlaethol â'u rhaglenni hyfforddi presennol. Mewn un bwrdd iechyd, mae gofyn i bob aelod o staff gael yr hyfforddiant craidd yn unol â dull strategol y bwrdd iechyd o weithio, a rhoddir hyfforddiant lefel uwch i grwpiau penodol o staff. Dywedodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ei fod wedi ceisio gwerthuso effaith yr hyfforddiant ymhlith rhai aelodau o staff, gan ganfod bod gwybodaeth a hyder gweithwyr iechyd proffesiynol ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi gwella o ganlyniad i'r hyfforddiant. Er enghraifft, ar ôl rhoi hyfforddiant, gwelwyd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau at ddarparwyr arbenigol. Fodd bynnag, mae cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau wedi dod law yn llaw â phryder ynghylch capasiti gwasanaethau arbenigol yn y trydydd sector i ymateb i gynnydd yn y galw yn sgil atgyfeiriadau. Teimlai ymatebwyr hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru wneud rhagor o waith mewn perthynas â'r canlynol:

1.17 Mae rhai awdurdodau lleol wedi mynegi pryderon bod hyfforddiant drwy'r Gymraeg yn gyfyngedig a mynegodd nifer bychan bryderon nad oes digon o gapasiti i ddarparu lefel yr hyfforddiant sy'n angenrheidiol. Cyfeiriodd rhai sefydliadau'r trydydd sector at yr her o gydymffurfio â gwahanol ofynion o ran hyfforddiant pan oeddent yn gweithio ar draws ffiniau gyda'r sector cyhoeddus, ac roedd sefydliadau wedi pennu safonau a disgwyliadau gwahanol iawn ar gyfer y trydydd sector. Dywedodd nifer o sefydliadau hefyd nad oedd gan yr holl staff y mae angen hyfforddiant arnynt gyfrifiadur i'w ddefnyddio, ac o ganlyniad nid yw hyfforddiant ar gyfrifiadur yn addas ar eu cyfer.

## Pwysleisiodd sefydliadau fod gan Lywodraeth Cymru gyfraniad pwysig i'w wneud er mwyn eu helpu i roi'r Ddeddf ar waith

1.18 Mae ymatebwyr yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn hollbwysig er mwyn rhoi arweinyddiaeth a chyfeiriad ynghylch y gofynion o ran hyfforddiant. Mae'r Llywodraeth yn ganolog hefyd er mwyn egluro sut y mae disgwyl i ddarnau eraill pwysig o ddeddfwriaeth ddiweddar gyd-fynd â'r Ddeddf hon – fel y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. At hynny, cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at bwysigrwydd integreiddio'r Ddeddf â meysydd polisi eraill fel Cefnogi Pobl a Rheoli Troseddwyr. Nodwyd y gallai Llywodraeth Cymru hefyd fynd ati i rannu gwybodaeth am ddulliau gweithio ac arferion da sy'n cyd-fynd ag amcanion y Ddeddf.

# Atodiad 1

## Y rhestr ddosbarthu

Dyma'r sefydliadau a gafodd wahoddiad i gyfrannu at yr alwad hon am dystiolaeth:

- Pob un o'r 22 awdurdod lleol
- Pob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
- Heddluoedd
- Darparwyr gwasanaethau cymorth arbenigol

Cawsom ymatebion gan y canlynol:

- Saith awdurdod lleol
- Chwe Bwrdd Iechyd Lleol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Un Awdurdod Tân ac Achub
- Dau o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
- Un corff cynrychioladol

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru